





Marwolaeth Iesu ar y groes

Mathew 27: 27-66; Marc 15: 16-47; Luc 23: 26-56; Ioan 19: 16-42



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Mathew 27: 27-66; Marc 15: 16-47; Luc 23: 26-56; Ioan 19: 16-42	 An illustration showing Jesus on the cross, surrounded by Roman soldiers. The text 'JESUS IS CRUCIFIED AND DIES' is overlaid on the image, along with the Free Bible Images logo and the website address www.freebibleimages.org .	
1 Aeth Iesu allan, yn cario ei groes, i'r lle sy'n cael ei alw Lle y Benglog ('Golgotha' yn Hebraeg). Roedd tyrfa fawr o bobl yn ei ddilyn, gan gynnwys nifer o wragedd yn galaru ac wylofain.	 An illustration of Jesus carrying the cross on his shoulders, walking through a crowd of people. He is wearing a red robe and a crown of thorns.	
2 Roedd Iesu'n wan ar ôl cael ei chwipio. Ar y ffordd, daeth dyn o Cyrene o'r enw Simon i'w cyfarfod, a dyma'r milwyr yn ei orfodi i gario croes Iesu.	 An illustration of Simon of Cyrene carrying the cross on his shoulders, walking alongside Jesus. He is wearing a yellow robe and a crown of thorns.	
3 Yn Golgotha, dyma nhw'n hoelio Iesu ar groes, a dau arall hefyd — un bob ochr iddo, a Iesu yn y canol. Roedd hi'n naw o'r gloch y bore.	 An illustration of Jesus being hoisted onto the cross by Roman soldiers. He is lying on the cross, and the soldiers are pulling it up. The scene is set in a desolate, rocky landscape.	


-
- 4 Pan wnaeth y milwyr
groeshoelio Iesu, dyma
nhw'n cymryd ei ddillad
a'u rhannu rhwng y
pedwar ohonyn nhw.
Ond roedd ei grys yn un
darn o frethyn o'r top i'r
gwaelod. Felly dyma
nhw'n dweud, "Gadewch
inni beidio rhwygo hwn.
Gadewch i ni gamblo
amdano." Digwyddodd
hyn er mwyn i'r ysgrifau
sanctaidd ddod yn wir,
"Maen nhw wedi rhannu
fy nillad rhyngddynt nhw,
a gamblo am fy nghrys."
(Salm 22: 18)




-
- 5 Roedd y bobl oedd yn
pasio heibio yn gwneud
sbort am ei ben, ac yn
hyrddio enllibion ato,
"Felly! Ti sy'n mynd i
ddinistrio'r deml a'i
hadeiladu eto o fewn tri
diwrnod? Tyrd yn dy
flaen! Achub dy hun!
Tyrd i lawr o'r groes yna,
os mai ti ydy Mab Duw
go iawn!"



-
- 6 Roedd y prif offeiriaid a'r
arbenigwyr yn y Gyfraith
a'r arweinwyr Iddewig
eraill yno hefyd yn cael
sbort ymhlith ei gilydd.
"Roedd e'n achub pobl
eraill," medden nhw,
"ond dydy e ddim yn
gallu achub ei hun!"



-
- 7 Roedd un o'r lladron yn
ei sarhau a'i enllibio.
Ond dyma'r troseddwr
arall yn ei geryddu.
"Does arnat ti ddim ofn
Duw a thithau ar fin
marw hefyd? Dŷn ni'n
haeddu cael ein cosbi
am yr hyn wnaethon ni.
Ond wnaeth hwn ddim
byd o'i le." Yna meddai,
"Iesu, cofia amdana i
pan fyddi di'n teyrnasu."
Dyma Iesu'n ateb, "Wir i
ti — cei di ddod gyda mi
i baradwys heddiw."



-
- 8 O ganol dydd hyd dri o'r gloch y p'nawn aeth yn hollol dywyll drwy'r wlad i gyd.



-
- 9 Yna am dri o'r gloch gwaeddodd Iesu'n uchel, "Fy Nuw, fy Nuw, pam wyt ti wedi troi dy gefn arna i?" Wedyn dwedodd, "Dad, dw i'n rhoi fy ysbryd yn dy ddwylo di," ac ar ôl dweud hynny stopiodd anadlu a marw.



-
- 10 Pan welodd y capten milwrol oedd yno beth ddigwyddodd, dechreuodd ffoli Duw a dweud, "Roedd y dyn yma'n siŵr o fod yn ddiuog!" Dwedodd, "Mab Duw oedd y dyn yma, reit siŵr!"



-
- 11 Gan ei bod yn ddiwrnod paratoi ar gyfer wythnos y Pasg, a'r Saboth hwnnw'n ddiwrnod arbennig iawn, dyma'r arweinwyr Iddewig yn mynd i weld Peilat. Dyma nhw'n gofyn i Peilat ellid torri coesau lesu a'r ddau leidr iddyn nhw farw'n gynt, ac wedyn gallai'r cyrff gael eu cymryd i lawr. Felly dyma'r milwyr yn dod ac yn torri coesau'r ddau ddyn oedd wedi eu croeshoelio gyda lesu. Ond pan ddaethon nhw at lesu gwelon nhw ei fod wedi marw'n barod. Yn lle torri ei goesau, dyma un o'r milwyr yn trywanu lesu yn ei ochr gyda gwaywffon, a dyma ddŵr a gwaed yn llifo allan. Digwyddodd y pethau hynny er mwyn i beth sydd yn yr ysgrifau sanctaidd ddod yn wir: "Fydd dim un o'i esgyrn yn cael ei dorri," ac fel mae'n dweud yn rhywle arall, "Byddan nhw'n edrych ar yr un maen nhw wedi ei drywanu." (Salm 34: 20; Sechareia 12:10)



-
- 12 Ychydig cyn iddi nosi, dyma ddyn o'r enw Joseff (dyn cyfoethog o Arimathea oedd yn un o ddilynwyr Iesu) yn mynd at Peilat. Roedd yn ddyn da a gonest, ac yn aelod o'r Sanhedrin Iddewig. Aeth i ofyn i Peilat am ganiatâd i gymryd corff Iesu, a dyma Peilat yn gorchymyn rhoi'r corff iddo.



-
- 13 Dyma Joseff yn cymryd y corff a'i lapio mewn lliain glân. Yna fe'i rhoddodd i orwedd yn ei fedd newydd ei hun, un wedi ei naddu yn y graig. Wedyn, ar ôl rhoio carreg drom dros geg y bedd, aeth i ffwrdd.



-
- 14 Dyma'r prif offeiriaid a'r Phariseaid yn mynd i weld Peilat. "Syr," medden nhw wrtho, "un peth ddwedodd y twyllwr yna pan oedd e'n dal yn fyw oedd, 'Bydda i'n dod yn ôl yn fyw ymhen deuddydd'. Felly wnei di orchymyn i'r bedd gael ei wneud yn ddiogel hyd drennydd. Bydd hynny'n rhwystro'i ddisgyblion rhag dod a dwyn y corff, a mynd o gwmpas wedyn yn dweud wrth bobl ei fod wedi dod yn ôl yn fyw."



-
- 15 Cymerwch filwyr," meddai Peilat, "ac ewch i wneud y bedd mor ddiogel ag y gallwch chi." Felly dyma nhw'n mynd a gosod sêl ar y garreg oedd dros geg y bedd, a rhoi milwyr ar ddyletswydd i'w gwarchod.



-
- 16 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
